# Dyfodol Ysgol Uwchradd Willows
# Ysgolion yr 21ain Ganrif
# 14 Mehefin – 23 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 er mwyn trefnu hyn.

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

## Rydyn ni eisiau clywed eich barn!

Rydym yn adleoli Ysgol Uwchradd Willows. Bydd hyn yn cynnig cyfle cyffrous i chi helpu i lunio dyfodol yr ysgol.

Bydd cyfnod ymgysylltu yn cael ei gynnal o ddydd Llun 14 Mehefin ac rydym am glywed eich barn. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed barn plant a phobl ifanc, a fydd yn bwysig wrth ddatblygu gweledigaeth newydd ar gyfer yr ysgol.

Bydd y broses ymgysylltu anstatudol chwe wythnos hon yn rhoi cyfle i'r disgyblion, yr ysgol, y rhieni a'r gymuned ehangach gael dweud eu dweud ar sut y gellid datblygu Ysgol Uwchradd Willows newydd i ddiwallu anghenion y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Bydd eich barn a'ch safbwyntiau yn chwarae rhan annatod wrth lunio dyfodol Ysgol Uwchradd Willows gan gynnwys y cwricwlwm, ailfrandio a datblygu adeilad newydd yr ysgol.

Rydym yn awyddus i roi cymaint o wybodaeth â phosibl i chi am ein cynigion ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Mae cyfres o sesiynau galw heibio wedi eu trefnu, lle gallwch siarad â ni am yr ysgol newydd.

Rhestrir y rhain isod:

| Math yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 22 June 2021<br>10am – 12 noon | Tesco<br>Pengam Green |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Iau 24 June 2021<br>12 noon – 2pm | Brewery Field (gyferbyn â Rubicon Dance) |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mercher 30 June 2021<br>2pm – 4pm | Yr Hen Lyfrgell, Singleton Road |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 06 July 2021<br>6pm – 8pm | Pafiliwn Chwaraeon Parc Sblot |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 12 Gorffennaf 2021 10am tan 12pm | Plas Iona, Stryd Bute, Butetown, CF10 5HW |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Iau 15 Gorffennaf 2021 4pm tan 6pm | las Iona, Stryd Bute, Butetown, CF10 5HW |

## Rhannwch eich syniadau ar yr hyn y dylid ei addysgu yn Ysgol Uwchradd Willows

Yn 2022, bydd y Cwricwlwm i Gymru newydd yn cael ei gyflwyno ac fel rhan o'r broses ymgysylltu â'r gymuned, rydym eisiau clywed eich syniadau am yr hyn y dylid ei addysgu yn yr ysgol a sut y dylid ei gyflwyno.

Bydd y safbwyntiau hyn yn helpu'r ysgol i gynllunio cwricwlwm i gefnogi ei dysgwyr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr creadigol a llawn menter sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion Cmru a'r byd sy'n foesegol a gwybodus.
- unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau llawn boddhad fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas (Pedwar Diben NCFW 2022)

## Rhannwch eich syniadau ar yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Willows

Drwy Fand B Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru, bydd Ysgol Uwchradd bresennol Willows yn cael ei hadleoli i Lewis Road.

## Adeilad Ysgol Newydd

Bydd safle newydd yr ysgol ar dri pharsel o dir ym Marchnad Sblot, Portmanmoor Road a chaeau 3G yn yr hen ganolfan tenis.


Mae hyn yn rhoi digon o le ar gyfer adeilad newydd yr ysgol heb ddiddymu unrhyw fannau agored presennol.

Bydd gan yr ysgol newydd leoedd ar gyfer hyd at 900 o ddysgwyr 11-16 oed; gyda 180 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn (chwe dosbarth mynediad).

Bydd adeilad newydd yr ysgol yn caniatáu ehangu yn y dyfodol os oes angen.

Bydd dylunio ac adeiladu'r ysgol yn caniatáu ehangu hyd at 240 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn yn y dyfodol.

**Cynllun enghreifftiol (yn seiliedig ar adeilad tri llawr). Nid dyma'r cynllun terfynol.**
**Posibilrwydd o gau Lewis Road yn rhannol yn amodol ar brosesau dylunio/statudol.**



Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi darparu nifer o ysgolion newydd sbon gan gynnwys Ysgol Uwchradd y Dwyrain, Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gartref newydd Ysgol Uwchradd Fitzalan.

## Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd




## Ysgol Uwchradd y Dwyrain



Fel yr ysgolion hyn, bydd gan Ysgol Uwchradd newydd Willows gynllun modern a chyfleusterau newydd sbon gan gynnwys amwynderau addysgol o'r radd flaenaf mewn adeilad newydd sbon.

Caiff ddisgyblion fynediad i amgylchedd dysgu o ansawdd uchel a fydd yn cefnogi addysgu a dysgu.

Mae rhestr o gyfleusterau a fydd yn rhan o ddyluniad yr ysgol newydd yn cynnwys:

- Ystafelloedd dosbarth
- Ystafelloedd TG / astudiaethau busnes
- Labordai gwyddoniaeth
- Ystafelloedd celf
- Ystafelloedd cynllunio a thechnoleg
- Ystafell gerdd
- Stiwdio ddrama
- Ardaloedd Adnoddau Dysgu
- Ardaloedd bwyta/cymdeithasol
- Cyfleusterau chwaraeon













## Cyfleusterau Chwaraeon

Bydd gan yr ysgol newydd fynediad hawdd at gyfleusterau chwaraeon newydd o ansawdd uchel yn lleol, a fydd yn cynnwys:

- Caeau 3G, a fydd yn cael eu prydlesu i'r Tŷ Chwaraeon i gynnal clybiau ac i'r gymuned eu defnyddio gyda'r nos.
- Chwaraeon a Chymunedol Canol Caerdydd (CCSCC) yn Ocean Park, y gall y gymuned gyfan ei defnyddio y tu allan i'r oriau ysgol craidd.

Bydd partneriaethau'n cael eu ffurfio gyda chyfleusterau chwaraeon eraill yn yr ardal i gynnal gwersi Addysg Gorfforol. Mae cyfle hefyd iddynt ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd gyrfa. Y cyfleusterau chwaraeon eraill yw:

- Tair canolfan cyrtiau tennis
- Splash Central - nofio
- Academi Cleddyfa Caerdydd



## Helpu'r amgylchedd


**Cyrraedd yr ysgol**

Mae safle newydd yr ysgol lai na milltir o'r safle presennol. Mae hyn yn golygu y gallai'r daith i'r ysgol fod ychydig yn fyrrach i rai disgyblion ac ychydig yn hirach i eraill.

Nid yw'r disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ymhellach na 3 milltir o'r lleoliad newydd.

### Llwybr Cerdded

Cynllun yn dangos llwybr cerdded posibl o'r safle ysgol presennol.




Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i deithio llesol ac mae gennym Dîm Teithio Llesol i'r Ysgol pwrpasol sy'n gweithio gydag ysgolion i'w cefnogi i gyflwyno cynlluniau teithio llesol sy'n benodol i bob ysgol unigol yn ddiogel.

Bydd y cyfleusterau yn yr ysgol yn cynnwys mannau parcio diogel i feics (fel yn y llun isod) a loceri i storio dillad ac offer beicio hefyd.



**Llun o Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd**



## Dweud Eich Dweud!

Ysgol Uwchradd Willows yw eich ysgol chi ac rydym eisiau i'ch barn chi helpu i lunio ei dyfodol a helpu i drawsnewid bywydau dysgwyr lleol wrth ddarparu cyfleoedd i bobl leol a'r gymuned ehangach hefyd.

Beth hoffech chi i'r ysgol hon ei chynnig i'w disgyblion, rhieni, y gymuned leol ac ardaloedd cyfagos?

Efallai y byddwch am ystyried y canlynol:

- Beth rydych chi'n ei hoffi am y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd?
- A oes gennych unrhyw awgrymiadau i'w gwneud hyd yn oed yn well?
- Sut gall yr ysgol newydd fod o fudd i'r gymuned?
- Sut gall y gymuned fod o fudd i'r ysgol newydd?
- Beth sydd gan ysgolion eraill yr hoffech ei weld yn Ysgol Willows?

Drwy gymryd amser i rannu eich syniadau am yr ysgol newydd, byddwch yn ein helpu i ddeall ble y dylid buddsoddi adnoddau.

Mae cyfres o sesiynau galw heibio wedi eu trefnu, lle gallwch siarad â ni am yr ysgol newydd. Rhestrir y rhain isod:

| Math yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 22 June 2021<br>10am – 12 noon | Tesco<br>Pengam Green |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Iau 24 June 2021<br>12 noon – 2pm | Brewery Field (gyferbyn â Rubicon Dance) |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mercher 30 June 2021<br>2pm – 4pm | Yr Hen Lyfrgell, Singleton Road |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 06 July 2021<br>6pm – 8pm | Pafiliwn Chwaraeon Parc Sblot |

Gallwch hefyd roi eich barn neu ofyn cwestiynau i ni drwy e-bostio YmatebionYsgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ddefnyddio'r cod QR

Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb hon ar-lein ar wefan y Cyngor.

A ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Rhiant neu Warcheidwad* ___ Mam neu Dad Cu* ___
Aelod o Staff* ___ Disgybl* ___
Llywodraethwr* ___ Preswylydd Lleol ___
Arall (nodwch): ________________________________

*Rhowch enw'r ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw?

____________________________________________

**1. Beth rydych chi'n ei hoffi am y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd?**

**2. A oes gennych unrhyw awgrymiadau i'w gwneud hyd yn oed yn well?**

**3. Sut gall yr ysgol newydd fod o fudd i'r gymuned?**

**4. Sut gall y gymuned fod o fudd i'r ysgol newydd?**

**5.  Beth sydd gan ysgolion eraill yr hoffech ei weld yn Ysgol Willows?**

**6. Beth sy'n dda am y Willows fel y mae hi ar hyn o bryd ac y gallwn ei gynnal yn yr ysgol newydd?**

## Camau nesaf

Yn ystod gwyliau'r haf, ystyrir y safbwyntiau a fynegir yn ystod y broses ymgysylltu hon. Bydd Ysgol Uwchradd Willows yn defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i lunio'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol.

Tymor yr hydref - Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon byddwn yn gallu gofyn am adborth ar yweledigaeth newydd ar gyfer yr ysgol, a fydd yn helpu i lunio'r brîff dylunio a'r gofynion ar gyfer yr ysgol.

Ar ôl hyn, byddwn yn penodi contractwr i ddylunio ac adeiladu'r ysgol. Pan fo cynllun yn barod, bydd yn mynd i'r adran gynllunio, a bydd hyn yn cynnwys proses ymgynghori statudol.

Bydd ymgysylltu pellach yn digwydd pan fo set o luniau dylunio ar gael.